Cyfarfu'r Cyngor Cymuned ar Fedi 19 2019 am 8 o.r gloch yn Neuadd Santes Ursula

Presennol: Angharad Evans, Fred Jones, Islwyn Jones, Huw Griffith, Dylan Davies, Lyn Davies (Cadeirydd) a'r clerc.
Ymddiheuriad: Margaret Lewis
Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Gorffennaf ac arwyddwyd eu bod yn gywir.

Materion yn codi

1 Adroddiad Archwilydd Allanol. Derbyniwyd yr adroddiad a thrafod y cymwysiadau a nodwyd.

a) angen ychwanegu caffael a dyfarnu contractau at y Rheoliadau Ariannol. Adroddwyd bod hyn wedi ei wneud bellach a darllenwyd y fersiwn ddiwygiedig o'r Rheoliadau

b) ail-ddatgan swm y praesept ar ffurflen blwyddyn nesaf i gysoni'r tâl etholiad.

c) lefel uchel o arian wrth gefn

Mae'r Notice of Conclusion of Audit ar yr hysbysfwrdd

2 Torri'r fynwent. Adroddwyd i'r Clwb Ffermwyr Ifanc wneud y gwaith i safon sy'n bodloni'r Cynghorwyr. Disgwylir iddynt anfon anfoneb am y tâl.

3 Hysbysfwrdd Trefenter. Derbyniwyd anfoneb wrth Raymond Burrell. Dangoswyd llun o'r hysbysfwrdd yn ei le ac awdurdodwyd arwyddo siec am £396 o'r cyfrif cymunedol. Bydd angen ychwanegu'r hysbysfwrdd hwn at y rhestr asedau.

4 Radar Speed Signs Darllenwyd ymateb oddi wrth Jonathan Lazenby, clerc cymuned Goytre Fawr ynglŷn â'r arwyddion. Wedi trafodaeth gofynnwyd i'r clerc gysylltu â'r adran Priffyrdd am ganiatâd i osod arwydd.

Gohebiaeth

Gwybodaeth ar gyfer Pwyllgor Rheoli Datblygu mis Medi.

Cyngor Sir Ceredigion. Y system o bwrcasu gwasanaethau ategol ar gyfer clirio eira yn cael ei wneud yn electronig o hyn ymlaen.

Cyngor Sir Ceredigion. Her y Gyllideb i'w weld ar-lein

Adroddiad Eluned Morgan

Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r cylchlythyr Cyswllt Cymunedol

Copi o Clerks and Councils Direct

e-byst

Gwybodaeth am ymgynghoriadau ynglŷn â ;- rheoli llifogydd ac erydu arfordirol, y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, gwybodaeth am sesiynau hyfforddi, a chyfarfod blynyddol U Ll C, Cylchlythr y Comisiynydd Pobl Hŷn, Cyfrifoldeb awdurdodau cyhoeddus i gynnal a chryfhau bioamrywiaeth o fewn eu meysydd gwaith; arolwg ar ddefnydd y sector o fecanweithiau digidol i gysylltu a rhannu gwybodaeth – llanwyd yr arolwg ar-lein ar ran y Cyngor.

Ariannol
Cyfrif Cyfredol Awst 30   £2444.72 ar ôl derbyn cyfran arall o'r praesept - £1040
Cyfrif Cymunedol    £25,501.48

Unrhyw fater arall
1  Ail-godi mater arwyddion baw cŵn gan nad oes un o bosteri'r plant ysgol i'w gweld o gwmpas. Cytunwyd i ofyn yn yr ysgol os oedd ganddynt gopïau o hyd.
2  Fan Post.  Oherwydd salwch y postfeistr nid yw'r fan post wedi dod i'r pentref ers nifer o wythnosau.  Penderfynwyd gofyn i'r Cynghorydd Sir wneud ymholiadau gyda Swyddfa'r Post ynglŷn ag adfer y gwasanaeth.
3  Arwydd pentref Trefenter ger Tynddraenen.  Casglwyd hwn gan weithwyr y Cyngor Sir ac heb ei ddychwelyd.  Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â'r Cyngor.
4  Mast ffonau symudol.  Mynegwyd pryder fod awgrym y gallai gwasanaeth y mast ddod i ben.  Aros am ragor o wybodaeth.

Dyddiad y cyfarfod nesaf  Hydref 17 2019